## Jwdas a Dydd yr Arglwydd

Gofynnwyd i aelodau dosbarth allanol y Brifysgol ar raglen radio yn ddiweddar, dyddiadur pwy y carai pob un ei ddarllen. Ymhlith yr atebion diddorol oedd, 'Dyddiadur Jwdas'.

Ar yr wyneb, nid oes unrhyw gysylltiad rhwng Jwdas a Dydd yr Arglwydd, ond o feddwl ar ba achlysur y cyflawnodd y disgybl arbennig hwnnw ei frad, daw'r ateb yn gliriach.

Ac efallai nad yw sôn am frad mewn perthynas â'r Dydd arbennig hwnnw mor ddigyswllt. Gallwn fradychu diwrnod mor wir ag y gallwn fradychu person neu wlad pan fo arwyddocâd arbennig i ddiwrnod, fel y mae i Ddydd yr Arglwydd ac i berson ac i wlad.

Ond i ddod yn ôl at Jwdas. Dywed yr efengylau wrthym i'r prif offeiriaid a henuriaid y bobl ddod ynghyd ddeuddydd cyn y Pasg a chynllwynio i ddal Iesu trwy ddichell, a'i ladd. Ond meddent, 'Nid yn ystod yr ŵyl, rhag digwydd cynnwrf ymhlith y bobl' (Mathew 26.5). Ni feiddiai arweinwyr crefydd godi cynnwrf ar adeg felly; roedd ganddynt ormod o barch i'r ŵyl ac i grefydd.

Ond o bob adeg o'r flwyddyn, fe gyflawnodd Jwdas y brad yn ystod yr ŵyl gysegredig honno. Disgynnodd yn is na'r arweinwyr crefyddol Iddewig eu hunain: nid oedd ganddo barch o gwbl at ŵyl grefyddol os oedd brad yn ei galon.

Cysylltiadau diwrnod a gŵyl a'u gwna'n gysegredig yn y pen draw. Ac i ninnau, cysylltiadau Dydd yr Arglwydd sy'n bwysig. Yr un haul sy'n codi ar bob diwrnod arall o'r wythnos: ni wna'r haul unrhyw wahaniaeth rhwng diwrnod a diwrnod. Ond gwnaeth cysylltiad Dydd yr Arglwydd ag Atgyfodiad yr Arglwydd gogoneddus y diwrnod hwnnw'n unigryw ac arbennig i'r Cristion.

Pan gollodd Jwdas barch at yr Arglwydd Iesu Grist fe gollodd barch at ŵyl grefyddol, at ei gyd-ddisgyblion ac at bopeth oedd yn gysegredig cyn hynny.

Nid oes unrhyw beth mewn bywyd yn ddiogel pan gollwn barch at Iesu Grist. Nid yw diwrnod a'i gysylltiadau yn golygu dim. Diwrnod yw diwrnod – a dim arall – wedyn.

Ni fydd unrhyw arwyddocâd arbennig i wyliau Cristnogol fel Gwener y Groglith na Sul y Pasg, y Sulgwyn na'r Nadolig. Dyna paham y gwelwn golli parch at y gwyliau hyn. Yn y gwraidd colli parch at yr Arglwydd Iesu ydyw.